Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Glasbrint ar gyfer atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru

## Deall y Cysyniadau

Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

## Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod, yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), yn broblem iechyd cyhoeddus[1] fawr yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae'n torri hawliau dynol menywod a phlant, mae'n cyfyngu ar eu dewisiadau a'u dylanwad, ynghyd â'u gallu i gyfranogi yn y gymdeithas a dilyn nodau a dyheadau sy'n ystyrlon iddyn nhw. Mae hyn yn niweidio iechyd unigolion, teuluoedd, cymunedau ac economïau. Fodd bynnag, nid yw VAWDASV yn anochel. I'r gwrthwyneb, ceir cydnabyddiaeth eang a byd-eang ymhlith arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol bod modd atal pob math o drais yn erbyn menywod[2], yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Drwy fabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at VAWDASV, gallwn wneud cynnydd at gyflawni ein gweledigaeth: Cymru lle mae pob menyw a phlentyn yn byw'n rhydd rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a thrwy wneud hynny gyflawni annibyniaeth, rhyddid a rhyddhad o ormes. Mae'r papur hwn yn egluro rhai o'r cysyniadau allweddol sy'n sail ar gyfer ein hymagwedd at atal VAWDASV; yn nodi cryfderau a gwendidau yn yr ymateb cyfredol i VAWDASV yng Nghymru; ac yn cynnig ffordd ymlaen i'r wlad.

## Cynnwys


**1. Deall bod modd atal VAWDASV** .... 2

**2. Mabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at atal VAWDASV** .... 2

**3. Pwysigrwydd Atal Cynradd** .... 3

**4. Ymateb system gyfan: Newid sy'n Para** .... 5

**5. Tirwedd atal VAWDASV ar hyn o bryd yng Nghymru: ymhle mae atal cynradd a sut mae'n edrych?** .... 5

**6. Ffordd ymlaen yng Nghymru? Dod ag atal cynradd i ganol ein hymateb.** .... 9

**Egwyddorion strategaethau atal VAWDASV** .... 9

**Buddsoddi aml-sector** .... 9

**Sectorau allweddol ar gyfer hyrwyddo a chyllido atal cynradd** .... 11

**Camau gweithredu allweddol a lleoliadau ar gyfer ymateb system gyfan i atal VAWDASV** .... 13

**7. Monitro Newid** .... 16

**8. Casgliad** .... 16

## 1. Deall bod modd atal VAWDASV

Mae'r gydnabyddiaeth fod modd atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn seiliedig ar ddeall er bod llawer o fathau gwahanol o drais yn erbyn menywod a merched, ac er y bydd y ffactorau achosol a risg cysylltiedig yn amrywio'n unol â hynny,[3]

- mae *pob* math o VAWDASV wedi'u gwreiddio mewn perthynas anghyfartal o ran rhywedd mewn cymdeithas, ac yn fynegiant o hynny; mae hyn yn atgyfnerthu ac yn croestorri gyda rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia a mathau eraill o gamwahaniaethu;
- mae agweddau a chredoau sy'n cydoddef a/neu sy'n normaleiddio VAWDASV yn cael effaith achosol uniongyrchol ar gyflawni; ar gymunedau'n beio'r dioddefwyr; ac ar y tebygolrwydd y bydd goroeswyr yn hysbysu am gam-drin ac yn ceisio cymorth;[4]
- mae'r agweddau hyn wedi'u siapio gan strwythurau, arferion a normau cymdeithasol sy'n cadarhau anghydraddoldebau rhywedd a chroestoriadol drwy atgyfnerthu ystrydebau niweidiol, y syniad o 'rolau rhywedd' ac anghydraddoldebau strwythurol;[5]
- drwy herio a newid y strwythurau hyn, caiff y sail y gosodir VAWDASV arni ei thanseilio;
- yn y pen draw, bydd amlder VAWDASV yn lleihau wrth i oddefgarwch cymdeithas leihau, wrth i le menywod i weithredu[6] a'u gallu i ymarfer ymreolaeth gynyddu, ac wrth i berthnasoedd rhwng y rhywiau gael eu seilio ar barch at hawliau dynol ac urddas.

Ar gyfer mynd i'r afael â'r normau, arferion a strwythurau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb o ran rhywedd sy'n normaleiddio, dilysu neu gydoddef VAWDASV, rhaid cael ymateb strategol aml-lefel sy'n cydnabod y croestoriad rhwng y ffactorau hyn a mathau eraill o ormes sy'n digwydd ar lefelau cymdeithasol, cymunedol, perthynas ac unigol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o VAWDASV.[7] Gall anghydraddoldebau strwythurol a chamwahaniaethu'n seiliedig ar ddosbarth, rhywioldeb, ethnigrwydd, statws mewnfudo, abledd, iechyd meddwl neu oed, olygu bod rhai menywod a merched yn fwy tebygol o gael eu cam-drin ac wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gyrchu cyfiawnder a chymorth. Gall anghydraddoldebau sy'n croestorri o fewn strwythurau, arferion a normau cymdeithasol arwain at haenau ychwanegol o ddilysu, cydoddef neu guddio trais a cham-drin sydd, yn ei dro'n cynnal ac yn atgynhyrchu'r anghydraddoldebau hyn. O ganlyniad, ni ellir gwahanu achosion gwaelodol VAWDASV oddi wrth ymdrin â mathau eraill o anghydraddoldebau strwythurol a chamwahaniaethu. Mewn geiriau eraill, wrth ymdrin ag achosion gwaelodol VAWDASV, mae'n hanfodol deall a thrin y cydberthnasoedd pŵer gwahaniaethol sy'n hwyluso trais. O ganlyniad, gall ymyraethau ataliol sydd wedi'u cynllunio i dargedu VAWDASV leihau mathau eraill o drais rhyngbersonol yr un pryd, fel trais ieuenctid neu drais casineb.

## 2. Mabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at atal VAWDASV

Ers blynyddoedd, mae arbenigwyr wedi bod yn cyfeirio at drais yn erbyn menywod fel problem iechyd cyhoeddus mawr.[8] Caiff y termau 'epidemig byd-eang' a 'pandemig' eu defnyddio'n aml, ac yng ngoleuni effaith pandemig COVID-19, sydd wedi amlygu gwelededd

VAWDASV, atgyfnerthwyd hyn yn ddiweddar gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, a ddisgrifiodd trais yn erbyn menywod fel "pandemig cysgodol".[9] Mae mabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at VAWDASV yn golygu rhoi tri math o ymyrraeth ataliol ar waith: atal cynradd, eilaidd, a thrydyddol.

**Atal cynradd** – strategaethau â'r nod o atal trais cyn iddo ddigwydd. Mae rhai strategaethau'n canolbwyntio ar newid agweddau ac ymddygiad a/neu adeiladu gwybodaeth a sgiliau unigolion. Fodd bynnag, mae atal cynradd hefyd yn ymwneud â herio a diwygio strwythurau, arferion a normau cymdeithasol sy'n bresennol mewn perthnasoedd, cymunedau, sefydliadau a chymdeithas yn ehangach, sy'n hyrwyddo anghydraddoldeb o ran rhywedd; yn cydoddef, atgyfnerthu a/neu ddarlunio VAWDASV yn gadarnhaol; ac yn atgyfnerthu mathau eraill o gamwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

**Atal eilaidd** – targedir y strategaethau hyn at unigolion a grwpiau sy'n dangos arwyddion cynnar o gyflawni neu brofi VAWDASV. Yn aml cyfeirir at hyn fel "ymyrraeth gynnar". Ar lefel yr unigolyn, gellir anelu atal eilaidd at newid ymddygiadau neu gynyddu sgiliau unigolion a grwpiau. I alluogi ymyrraeth gynharach gyda goroeswyr a/neu gyflawnwyr VAWDASV, mae'n hanfodol fod y rolau cyhoeddus hyn, yn ogystal ag unigolion allweddol mewn cymunedau, yn gallu adnabod arwyddion o VAWDASV a gwybod ble i gyfeirio unigolion am gymorth.

**Atal trydyddol** – mae'r ymyraethau hyn yn cynnwys cefnogaeth, triniaeth a gwarchodaeth a ddarperir i bobl sydd wedi profi VAWDASV ar ôl iddo ddigwydd. Nod yr ymyraethau yw ymateb ac atal dychweliad, dwysáu a chanlyniadau niweidiol. Mae ymyrraeth yn cynnwys llety argyfwng a chymorth cymdeithasol i ddioddefwyr a chyfiawnder troseddol ac ymyraethau therapiwtig i gyflawnwyr, er enghraifft.




Persbectif Amser

## 3. Pwysigrwydd Atal Cynradd

Yn gynyddol, caiff ymyraethau atal cynradd, sydd wedi'u cynllunio i atal y cam-drin *cyn iddo ddigwydd,* eu cydnabod yn hanfodol ar gyfer atal VAWDASV. Er eu bod yn bwysig, nid yw gweithredu o'r brig i lawr ar ffurf cyfraith droseddol a sancsiynau cyfreithiol ar gyfer cyflawni VAWDASV[i] yn ddigonol i newid amodau cymdeithasol anghydraddoldeb o ran rhywedd, nac i

[i] Er hynny, noder bod deddfwriaeth sy'n troseddoli mathau penodol o VAWDASV, fel priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a mathau eraill o'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd', yn absenoldeb ymyriadau ataliol cymunedol, wedi'i beirniadu gan actifyddion a sefydliadau elusennol, ar y sail fod dioddefwyr neu ddarpar ddioddefwyr cam-drin o'r fath yn gallu bod yn anfodlon ceisio cymorth os ydynt yn credu y bydd y cyflawnwyr – yn aml eu rhieni neu anwyliaid – yn cael eu carcharu o ganlyniad i hynny. Caiff effeithiolrwydd y gyfraith ei gwestiynu'n fwy sylfaenol hefyd (gweler e.e. Bishop,

newid agweddau ac atal cyflawni VAWDASV. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gyfraith ar y cyfan yn ymatebol – mae'n ymateb i ddigwyddiadau fel troseddau. Er bod hyn yn gallu llwyddo i atal dychweliad neu ddwysau'r cam-drin, does fawr o dystiolaeth i awgrymu ei fod yn offeryn ataliol ar gyfer cyflawni VAWDASV yn y lle cyntaf. Ymhellach, mae unrhyw ddylanwad y gall troseddoli ymddygiad ei gael ar agweddau unigolion a chymunedau o ran cyflawni a/neu oddef VAWDASV yn debygol o gael ei gwanhau os caiff sancsiynau eu rhoi ar waith a'u gorfodi'n annigonol.[10]

Mae mynd i'r afael ag achosion gwaelodol VAWDASV drwy atal cynradd yn golygu gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau ar draws y boblogaeth a chwrs bywyd i feithrin diwylliant o gydraddoldeb a pharch. Gellir cyflwyno ymyraethau i'r boblogaeth gyfan (cyffredinol) neu i grwpiau penodol (targedig). Tra bo modd cyfiawnhau ymyraethau targedig yn aml ar sail 'risg gynyddol o ddioddef / cyflawni', mae'n hanfodol deall bod y 'risg' hon yn cael ei siapio / dwysau gan ffactorau systemig niferus, fel ymyleiddio lleisiau lleiafrifol, mynediad cyfyngedig at gyfiawnder a chymorth, a dileu eu profiadau i bob pwrpas (e.e. plant a phobl ifanc, menywod anabl, menywod Du a lleiafrifol ethnig, menywod sy'n fewnfudwyr a menywod LHDT+). Mae ymyraethau targedig felly'n hanfodol er mwyn cyfathrebu ac ymgysylltu yn y ffordd fwyaf addas gydag amrywiaeth o bobl.

Ymhellach, dros y blynyddoedd diwethaf, mae consensws wedi'i adeiladu y dylai strategaethau sy'n atal VAWDASV ganolbwyntio ar atal *cyflawni*, yn hytrach na hyrwyddo'r syniad y dylai'r cyfrifoldeb fod ar fenywod a phlant i'w cadw eu hunain yn ddiogel rhag dioddef. Er bod ymagweddau ar lefel gymunedol[11] â'r nod o leihau erledigaeth a galluogi menywod a merched i deimlo'n ddiogel yn gallu bod yn elfen werthfawr yn y strategaeth atal, mae lleihau'r nifer o *wir gyflawnwyr a darpar gyflawnwyr* yn y boblogaeth yn angenrheidiol i gyflawni lleihad mesuradwy yn yr achosion o VAWDASV ar raddfa'r boblogaeth.[12] Heb esgusodi ymddygiad unigolion – mae cyflawni trais *bob amser* yn ddewis – mae'n hanfodol deall yr ymddygiad hwn yng nghyd-destun strwythurau, systemau a normau sy'n cydoddef (neu hyd yn oed yn llongyfarch) cyflawni. Mae lleihau VAWDASV felly'n dibynnu ar newid yr amgylchiadau hyn.

Byddai rhaglen effeithiol o atal cynradd yn galluogi holl bobl Cymru i ddeall bod VAWDASV yn ffordd o gam-drin pŵer a rheolaeth, ei fod wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb o ran rhywedd, a'i fod yn cael ei ddwysau gan fathau eraill o gamwahaniaethu. Byddai'n eu grymuso i atal VAWDASV drwy roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i unigolion a chymunedau allu cydnabod a herio rhywiaeth, ymddygiad rheoli, beio dioddefwyr, ac agweddau ac ymddygiad arall sy'n cydoddef neu'n cyfiawnhau trais. Byddai hyn y lleihau'r gofod ar gyfer cyflawni; yn cynyddu hyder goroeswyr wrth geisio cymorth; a galluogi ymyrraeth gynharach gyda goroeswyr a chyflawnwyr. Er bod hyn yn debygol o arwain at gynnydd cychwynnol yn y galw ar wasanaethau ymateb a chefnogi, yn y tymor hirach byddai'r achosion o VAWDASV ar draws Cymru'n lleihau.

---

C. (2016) 'Domestic violence: the limitations of a legal response', *Domestic Violence*, eds. S. Hilder, V. Bettinson, Palgrave Macmillan) ar y sail fod y gyfraith ei hun yn hynod batriarchaidd a thrwy hynny'n gallu meithrin anghydraddoldebau a gwerthoedd rhywedd, credoau a normau cymdeithasol sy'n galluogi cyflawni VAWDASV.

Er mai prif nod atal cynradd yw atal VAWDASV cyn iddo ddechrau, mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymyrraeth gynharach gyda goreswyr a chyflawnwyr cam-drin. Yn syml, atal cynradd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer lleihau amlder VAWDASV a gwella iechyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## 4. Ymateb system gyfan: Newid sy'n Para

Wrth gwrs, mae'n rhaid i ymyraethau atal cynradd fod yn rhan o ymateb ehangach gan y system gyfan i VAWDASV lle caiff goroeswyr eu cefnogi a'u diogelu rhag cam-drin pellach ac y caiff cyflawnwyr eu dal yn atebol gyda chyfleoedd i newid eu hymddygiad. Mae ymagwedd system-gyfan Cymorth i Ferched Cymru at VAWDASV – *Newid sy'n Para* – yn enghraifft o hyn: mae cynllun Llysgenhadon Cymunedol 'Gofyn i Fi' yn dod ag atal cynradd i ganol ein hymateb i VAWDASV. Nod 'Gofyn i Fi' yw chwalu'r tawelwch ar VAWDASV mewn cymunedau; codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth arbenigol hanfodol a sicrhau lle bynnag a phryd bynnag y bydd goroeswr yn rhannu ei phrofiadau, bydd yn derbyn yr ymateb mwyaf defnyddiol y tro cyntaf, bob tro. Cyflawnir hyn drwy hyfforddi aelodau o'r gymuned am VAWDASV a'i achosion a'u harfogi gyda sgiliau i herio agweddau rhywiaethol fel beio'r dioddefwr yn ddiogel yn eu cymunedau. Hefyd cânt wybodaeth ac offerynnau i gyfeirio goroeswyr neu bobl eraill sy'n pryderu at wasanaethau VAWDASV arbenigol. Mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o ymyrraeth gynharach gyda goroeswyr a chyflawnwyr, sy'n lleihau'r niwed a achosir (atal eilaidd).

Yn ogystal â chynllun 'Gofyn i Fi', mae'r model Newid sy'n Para yn cynnwys hyfforddiant i 'Weithwyr Proffesiynol Dibynadwy' sy'n codi sgiliau gweithwyr mewn amrywiol weithleoedd i adnabod arwyddion o VAWDASV yn gynt, ymateb yn fwy priodol i oroeswyr a chyflawnwyr yn eu gwasanaethau ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol, unwaith eto â'r nod o gynyddu cyfleoedd am ymyrraeth gynharach gyda goroeswyr a chyflawnwyr. Wrth gwrs, mae llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar wasanaethau ansawdd uchel i ymateb i'r rheini sy'n cael eu cyfeirio atynt (atal eilaidd a thrydyddol). Adlewyrchir hyn yn nhrydedd elfen *Newid sy'n Para*: darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i fenywod a phlant, lle mae'r gefnogaeth yn seiliedig ar gryfderau, yn cael ei arwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd a'i lywio gan drawma, sy'n hyrwyddo adferiad tymor hir o'r cam-drin a'r trawma maent wedi'u profi. Yn ogystal â'r gefnogaeth i oroeswyr a'u plant ceir ymyrraeth gynnar i ddynion sy'n pryderu am eu hymddygiad ac sy'n mynegi parodrwydd / awydd i'w newid.[13]

## 5. Tirwedd atal VAWDASV ar hyn o bryd yng Nghymru: ymhle mae atal cynradd a sut mae'n edrych?

Yng Nghymru, mae Deddf *Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015* (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys byrddau iechyd, i ganolbwyntio ar atal VAWDASV, yn ogystal â diogelu goroeswyr a chefnogaeth i bawb yr effeithir arnynt. Mewn geiriau eraill, rhaid i wasanaethau cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithredu strategaethau i leihau VAWDASV ar bob lefel o'r sbectrwm atal: cynradd, eilaidd, a thrydyddol.

Mae'r strategaeth genedlaethol ar gyfer VAWDASV[14] yng Nghymru'n gosod atal cynradd yn gadarn ar yr agenda: erbyn 2021 bydd angen i Weinidogion Cymru allu dangos bod cynnydd wedi'i wneud at gynyddu ymwybyddiaeth poblogaeth Cymru o VAWDASV a herio agweddau sy'n ei gydoddef neu ddilysu. Yn yr un modd, bydd angen iddynt ddangos bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant a phobl ifanc, yn benodol, wedi gwella mewn perthynas â pherthnasoedd 'diogel, iach a chyfartal', a bod 'ymddygiad cam-drin bob amser yn anghywir'.

Does dim llai o bwyslais yn cael ei roi yn y strategaeth ar yr elfennau hyn o atal (atal cynradd) nag ar adeiladu capasiti sefydliadol, cyfundrefnol a chymunedol i adnabod ac ymateb yn briodol i amheuaeth o VAWDASV, a gwasanaethau ymyrraeth gynnar sydd wedi'u cyllido'n ddigonol i oroeswyr ac i gyflawnwyr sy'n awyddus i newid eu hymddgiad (atal eilaidd); a sicrhau bod yr holl wasanaethau ymateb a chymorth VAWDASV yn rhai ansawdd uchel, sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac yn ymateb i rywedd, ac yn dal cyflawnwyr yn atebol (atal trydyddol). Yn ôl pob golwg felly, caiff atal cynradd yr un pwysau strategol â phob elfen arall wrth ymdrin â VAWDASV yng Nghymru.

Mewn gwirionedd, nid dyna sy'n digwydd. Ar draws Cymru, mae'r adnoddau cyfyngedig ac anghynaladwy o ran atal VAWDASV yn golygu bod buddsoddiad, yn enwedig drwy gyllid statudol, yn gorfod cael ei ganoli ar fesurau atal trydyddol - hynny yw, ymateb y gwasanaeth ar ôl i'r cam-drin ddigwydd a chael ei adrodd. Fe wyddom fod yr ymatebion hyn yn hanfodol o ran arafu cynnydd a lleihau'r niwed sydd eisoes wedi'i achosi gan drais, yn ogystal â'i atal rhag digwydd eto a chefnogi'r broses ymadfer a grymuso goroeswyr, yn cynnwys plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae ymyrryd ar ôl i'r trais ddigwydd yn golygu cost enfawr, yn ddynol ac yn economaidd.

Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn unig yn costio tua £66 biliwn bob blwyddyn,[15] gyda throseddau trais rhywiol yn costio £12.2 biliwn ar ben hynny,[16] ac anffurfio organau cenhedlu benywod yn costio £100 miliwn arall mewn gofal.[17] Mae hyn yn ychwanegol i gostau mathau eraill o drais yn erbyn menywod, fel camfanteisio rhywiol a'r fasnach mewn pobl, ynghyd â'r hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd.[18]

O'r tri maes gwariant penodol - 'rhagweld' (mesurau diogelu ac ataliol), 'canlyniad' (difrod i eiddo, niwed corfforol ac emosiynol, cynnyrch a gollir, gwasanaethau iechyd a dioddefwyr) ac 'ymateb' (yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol), yn 2016-17, dim ond £6 miliwn - 0.01 y cant - o gost amcangyfrifol cam-drin domestig a wariwyd ar fesurau atal cynradd neu 'ragweld'. Yn absenoldeb dadansoddiad cymaradwy o amcangyfrif o gostau cam-drin domestig yng Nghymru, mae'n rhesymol tybio - ar sail anweledigrwydd 'atal cynradd' o ran comisiynu gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru,[19] a heb unrhyw dystiolaeth sy'n nodi fel arall – nad oes gwahaniaeth sylweddol yn y gwariant cyfrannol ar atal cynradd rhwng Cymru a Lloegr – h.y. mae'n isel iawn yn y ddwy wlad.[ii]

[ii] Nid yw'n bosibl amcangyfrif faint a gaiff ei wario ar atal cynradd mewn perthynas â thrais rhywiol gan fod yr elfen 'rhagweld' ar gyfer y costau a amcangyfrifir ar gyfer treisio a throseddau trais rhywiol eraill yn cwmpasu darparu seilwaith a chyfarpar 'amddiffynol' yn unig, fel larymau, offer teledu cylch cyfyng a mathau eraill o fesurau diogelwch.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o waith atal cynradd pwysig yn cael ei wneud yn genedlaethol, yn rhanbarthol a/neu'n lleol yng Nghymru, sy'n cael ei hybu gan ymdrechion atal eilaidd i alluogi adnabod goroeswyr a chyflawnwyr VAWDASV yn gynharach. Mae pob un o'r strategaethau VAWDASV rhanbarthol yng Nghymru'n nodi amrywiol fentrau sydd, sydd wedi bod neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith i wella gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu pobl i newid agweddau ac ymddygiad sy'n cydoddef VAWDASV. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- arwain a / neu gyfranogi mewn ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- gwreiddio 'dull addysg gyfan' at VAWDASV mewn ysgolion;
- cynlluniau i wreiddio VAWDASV mewn cwricwlwm Addysg Perthnasoedd a Rhyw mandadol i ddisgyblion 3 – 16 oed yng Nghymru o fis Medi 2022 – mae gan hyn botensial sylweddol i atal VAWDASV drwy rymuso plant a phobl ifanc i herio a diwygio normau cymdeithasol ac ystrydebau cymdeithasol;
- llysgenhadon cymunedol 'Gofyn i Fi' yn rhan o fodel *Newid sy'n Para* ar gyfer VAWDASV;
- ymyraethau gwyliedydd mewn sefydliadau addysgu bellach / uwch a chefnogi datblygu 'dull system gyfan' o ran VAWDASV ar gampysau prifysgol;
- rhaglenni hawliau merched e.e. *Hyrwyddwyr Cymru*;
- model gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn seiliedig ar hybu perthnasoedd iach ac amlygu effaith cam-drin domestig a mathau eraill o VAWDASV ar blant;
- mentrau sy'n cymell dynion a bechgyn i herio VAWDASV ac anghydraddoldeb o ran rhywedd;
- y sector arbenigol yn gweithio gyda'r cyfryngau i ddylanwadu ar ohebu cyfrifol ar VAWDASV;
- grwpiau grymuso economaidd a chymdeithasol i fenywod sy'n rhywedd-drawsnewidiol.

Caiff yr ymdrechion hyn eu hatgyfnerthu gan ffynonellau niferus o hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth ar VAWDASV. Er mai nod cyntaf llawer o'r rhain yw gwella'r ffordd y canfyddir VAWDASV ac ymyrraeth gynharach (atal eilaidd), maent hefyd yn helpu ymdrechion atal cynradd drwy addysgu pobl am VAWDASV a'i achosion. Ceir hyfforddiant cyfyngedig hefyd â'r nod o gynyddu dealltwriaeth o VAWDASV, ei achosion a'i ganlyniadau, fel modd o rymuso unigolion a chymunedau i herio agweddau a chreu newid diwylliannol. Caiff y rhain eu cyflwyno'n bennaf gan y sector arbenigol, wedi'u gwreiddio yn nhystiolaeth 40 mlynedd o ymgysylltu â goroeswyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (cyflwynir ar draws y sector cyhoeddus);
- Hyfforddiant Llysgenhadon Cymunedol 'Gofyn i Fi'
- Hyfforddiant i Weithwyr Proffesiynol Dibynadwy
- Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (i feddygon teulu);
- Hyfforddiant pwrpasol i ynadon a'r heddlu gan wasanaethau arbenigol VAWDASV;
- Gwybodaeth hygyrch ar VAWDASV ar wefannau awdurdodau lleol / diogelu rhanbarthol

Yn amlwg, mae atal cynradd ar yr agenda. Y broblem yw, ar wahan i'r *Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol*, nid ydynt yn rhan ganolog o'r ymagwedd gyfredol at ymdrin â VAWDASV. Yn hytrach na chyllido atal cynradd fel rhan hanfodol o fodel cyllido cynaliadwy, mae llawer o'r mentrau hyn yn ychwanegion – cânt eu rhoi ar waith os a phan fydd adnoddau 'ar gael'.[20] Er enghraifft, er bod chwech o'r wyth strategaeth ranbarthol yn nodi cyflwyno canllawiau 'dull ysgol gyfan' Llywodraeth Cymru mewn ysgolion fel blaenorieth ar gyfer atal VAWDASV a gwella darpariaeth i blant a phobl ifanc y mae'n effeithio arnynt, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud i nodi i ba raddau mae ysgolion yn gweithredu'r canllawiau hyn, heb sôn am adnabod ac ymateb i'r galluogwyr a'r rhwystrau penodol i'w cyflwyno. Bedair blynedd ers i'r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar VAWDASV ar y pryd ddweud[21] nad oedd hi'n gwybod sut oedd canllawiau dull addysg gyfan yn cael eu defnyddio, dosbarthu neu fonitro, faint o ysgolion oedd yn eu defnyddio na pha adnoddau oedd yn cael eu dyrannu ar lefel leol, ranbarthol na chenedlaethol i gefnogi a galluogi ysgolion i "symud y newid diwylliannol hwn yn ei flaen", rydym ni'n dal i fethu darparu ateb cyflawn i'r pryderon hyn. Mae'n arwyddocaol nad yw'r cynlluniau i weithredu cwricwlwm addysg rhyw a pherthnasoedd mandadol, sydd yn amlwg â swyddogaeth *ataliol a grymuso* posibl yn ogystal â swyddogaeth diogelu, eto wedi'u cysylltu'n benodol gydag atal VAWDASV a naw egwyddor y dull addysg gyfan a hyrwyddir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.[22]

Mae nifer o resymau pam fod ymyraethau atal cynradd â'r nod o herio achosion gwaelodol VAWDASV yn tueddu i fod ar ymylon darpariaeth VAWDASV. Mae cyrff cyhoeddus yn ogystal â sefydliadau'r sector arbenigol yn gyson yn sôn am ddiffyg capasiti ac adnoddau fel rhwystrau o ran cyflwyno ymyraethau atal cynradd. Oherwydd y diffyg cyllid sydd ar gael – "dim arian dynodedig ar gyfer atal"[23] – caiff cyrff cyhoeddus yn ogystal â gwasanaethau arbenigol VAWDASV eu gosod mewn sefyllfa amhosibl gan deimlo y byddai'n rhaid i gyllid atal ddod ar draul gwella (neu hyd yn oed gynnal) darpariaeth gyfredol i oroeswyr. Ni ddylai gwasanaethau arbenigol orfod ystyried torri gwasanaethau i oroeswyr er mwyn hwyluso gwaith ataliol – yn enwedig gan fod atal cynradd effeithiol yn debygol o gynyddu'r nifer o bobl sy'n ceisio cymorth.[24]

Mae'r dyfyniad uchod – "dim arian dynodedig ar gyfer atal" – yn crisialu hanfod y broblem a wynebir yng Nghymru: yn sylfaenol, bod 'atal' (h.y. atal cynradd) yn cael ei weld fel rhywbeth ychwanegol dewisol[25] sydd, er ei fod yn ddymunol, o reidrwydd yn gorfod aros tra bod gwasanaethau'n ceisio ymdopi â'r galw am gefnogaeth ac ymatebion i achosion cyfredol o VAWDASV. Mewn geiriau eraill, mae'n glir bod y system yn bennaf wedi'i chynllunio i ymateb i argyfyngau yn hytrach na chreu newid systematig sy'n ceisio atal VAWDASV. Er ei bod yn glir nad dyma yw bwriad y Ddeddf na'r strategaeth genedlaethol, dyma *yw'r* neges sy'n dod o benderfyniadau comisiynu, yn lleol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, tra bo croeso i'r ymrwymiad i ddarparu £2.4 miliwn ychwanegol ar gyfer mynd i'r afael â VAWDASV yng nghyllideb ddrafft Cymru[26], dim ond £250,000 o hyn sy'n cael ei neilltuo ar gyfer gwariant refeniw. Mae hyn i'w rannu ar draws 'pum prosiect ychwanegol', gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymyraethau cynnar. Does dim sôn am gynyddu'r gyllideb ar gyfer gweithgaredd atal cynradd. Rydym ni'n dal i aros am fodel cyllido cynaliadwy, ymrwymiad a wnaed yn Strategaeth VAWDASV Genedlaethol 2016-21, sy'n cydnabod yr angen am fuddsoddiad ar draws portffolios gan gynnwys plant a chymunedau, addysg, iechyd (yn enwedig iechyd meddwl) a'r economi fel meysydd sydd oll ar eu helw o atal VAWDASV.

Mae angen i hyn newid. Rhaid cael symud sylweddol yn y cysyniad o atal cynradd – o fod yn 'ychwanegyn' dewisol i fod yn rhan hanfodol o'n hymateb i VAWDASV. Hebddo, bydd menywod a merched yn parhau i brofi lefelau epidemig o drais a cham-drin drwy gydol eu bywydau ac ni fyddant yn gallu gwireddu eu hawl dynol i fyw'n rhydd rhag cam-drin. O ganlyniad, ni fydd y galw gan y gwasanaethau cymorth ac ymateb yn lleihau. Mae'r adran nesaf yn gosod gweledigaeth strategol ar gyfer atal VAWDASV yng Nghymru – un sydd ag atal cynradd yn ganolog iddi.[27]

## 6. Ffordd ymlaen yng Nghymru? Dod ag atal cynradd i ganol ein hymateb.

Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig cael dealltwriaeth gynhwysfawr a chyfredol o'r sail o dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i atal VAWDASV. Mae sicrhau bod asiantaethau'n gweithredu ymarfer effeithiol sydd wedi'i brofi drwy werthuso trylwyr a gwybodaeth ymarferol o beth sy'n gweithio yn atal niwed posibl a hefyd yn sicrhau nad yw arian yn cael ei wastraffu'n cyflwyno strategaethau heb unrhyw effaith. Mae'n bwysig cydnabod nad yw llawer o astudiaethau ym maes atal cynradd VAWDASV yn archwilio a yw ymyraethau penodol wedi arwain at newid mewn ymddygiad. Yn hytrach, maent yn tueddu i ganolbwyntio ar ganlyniadau canolog fel rhan o *ddamcaniaeth newid ymddygiad*. Er enghraifft, gallent edrych ar fesurau fel adeiladu sgiliau, credoau, agweddau neu ymwybyddiaeth fel mesurau sy'n sail a/neu'n cydoddef ymddygiad treisiol. Er enghraifft bydd rhaglen gwyliedydd yn ceisio adeiladu ymddygiad rhag-gymdeithasol sy'n atal trais drwy feithrin sgiliau a herio agweddau a chredoau sy'n cefnogi trais.

Yn 2020/21, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Atal Trais Cymru, mewn cydweithrediad â Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cynnal adolygiad systematig i ganfod pa ymyraethau penodol sy'n effeithiol yn atal VAWDASV, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf. Wrth gynnig ffordd ymlaen ar gyfer atal VAWDASV yng Nghymru, mae'r papur hwn yn cydnabod bod rhai bylchau yn y sail dystiolaeth gyfredol ar 'beth sy'n gweithio' a bod rhai ymyraethau atal cynradd wedi cael / yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru heb gael eu gwerthuso i ddeall eu heffaith. Fel y cyfryw, tra bo'r adolygiad systematig hwn yn cael ei gwblhau, nid yw'r papur hwn yn cynnig set ddiffiniol o raglenni penodol i'w rhoi ar waith. Yn hytrach, mae'n nodi, ar sail tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol, egwyddorion allweddol ar gyfer atal VAWDASV, yn ogystal â *mathau* o ymyraethau sydd wedi profi'n addawol a/neu'n effeithiol a'r prif sectorau / mannau ble gallai'r camau hyn ddigwydd.

Mae hefyd yn hanfodol cydnabod cyfraniad y gwasanaethau arbenigol a goroeswyr a chael ein llywio ganddynt. Ers dros 40 mlynedd drwy gyflenwi darpariaeth 'gan ac ar gyfer' goroeswyr VAWDASV, mae gwasanaethau arbenigol wedi sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn ganolog ac wedi adeiladu cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a beth sydd angen ei roi ar waith ar draws gwahanol gymunedau yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon am ymarfer a phrofiad byw yn hanfodol i sicrhau ein bod yn creu newid sy'n para.

**Egwyddorion strategaethau atal VAWDASV**

Mae cydnabod a derbyn bod gwreiddiau VAWDASV yn gorwedd mewn anghydraddoldeb o ran rhywedd yn rhagamod absoliwt ar gyfer pob gwaith atal cynradd.[28] Ni chyflawnir

symudiad sylweddol yn y cysyniad bod atal cynradd yn hanfodol ar gyfer cyflawni newid sy'n para os ydym ni'n gwadu'r cyswllt rhwng VAWDASV a rhywedd. Rhaid i'r egwyddorion canlynol fod yn sail i bob ymyrraeth ataliol, boed yn gynradd, eilaidd neu drydyddol:

- Rhaid i bob ymyrraeth ataliol, boed gyda chymunedau cyflawn, grwpiau wedi'u targedu, cyflawnwyr neu oroeswyr y gwyddys amdanynt, fod wedi'i seilio mewn safbwynt croestoriadol ar sail rhywedd ac ymagwedd yn seiliedig ar hawliau.
- Rhaid i bob ymyrraeth gyda (darpar) ddioddefwyr VAWDASV fod yn seiliedig ar gryfderau, ei arwain gan anghenion, a'i lywio gan drawma – gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y goroeswr yn hytrach na'r gwasanaeth, a gallu bodloni anghenion goroeswyr unigol ac ymateb i'w lles gorau.
- Pa bynnag wasanaeth sy'n cyflwyno'r ymyrraeth, dylai fod â chysylltiadau cryf a threfniadau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol – gwasanaethau VAWDASV, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac ati.
- Dylid ystyried a thrin rhieni nad ydynt yn cam-drin fel ffynonellau gwydnwch i'w plant, ac ni ddylent hwy na'u plant gael eu cosbi am ganlyniadau camdriniaeth y cyflawnwr.
- Rhaid i ymyraethau fod yn ymwybodol o'r ffurfiau croestoriadol o gamwahaniaethu ac anghydraddoldeb a brofir gan fenywod yng Nghymru, a gallu ateb yn briodol iddynt, gan gynnwys drwy wasanaethau 'gan ac ar gyfer' fel gwasanaethau menywod du a lleiafrifol.
- Rhaid i bob ymyrraeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan dynnu ar werthuso academaidd, ymgysylltu â goroeswyr a gwybodaeth am ymarfer. Dylid nodi dangosyddion llwyddiant yn glir, a dylid monitro canlyniad ar sail damcaniaeth glir o newid ar gyfer atal VAWDASV.

Yn nhermau atal cynradd, yn benodol fe wyddom fod VAWDASV yn gallu effeithio ar unrhyw un. Felly rhaid nodi cyfleoedd ar gyfer atal cynradd ar draws oes gyfan - o fabandod (cyn ac ar ôl geni) i oedolion hŷn. Ni ddylai neb gael eu gadael ar ôl. Ymhellach, mae angen i ymyraethau atal cynradd gyrraedd pobl ar draws pob cymuned - lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Nid yw ymgyrchoedd *ad hoc* neu ddiwrnodau gwybodaeth yn ddigon i newid agweddau rhywiaethol a normau niweidiol ar sail rhywedd sy'n sylfaen i VAWDASV, na dosbarthiad anghyfartal pŵer ac adnoddau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd rhwng dynion a menywod – sydd oll yn waddol canrifoedd o anghydraddoldeb a chamwahaniaethu croestoriadol a chyfundrefnau gormesol. Mae angen atgyfnerthu negeseuon ynghylch cydraddoldeb rhywedd ac annerbynioldeb VAWDASV dro ar ôl tro mewn cynifer o feysydd gwahanol mewn bywyd a rhaid iddynt gael eu cyfnerthu gyda newidiadau strwythurol mewn sefydliadau cyhoeddus. Ar yr un pryd, rhaid i ni sicrhau bod y seilwaith a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer ymateb i oroeswyr a'u cefnogi yn ddigonol, yn ogystal â dal cyflawnwyr yn atebol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' a sicrhau bod yr *holl* wasanaethau'n gallu ymateb mewn ffordd gefnogol i oroeswyr o unrhyw gefndir. Yn amlwg, bydd hyn yn galw am ymdrech a buddsoddiad tymor hir, arweinyddiaeth gref a gweladwy, a chyfradd uchel o gydlynu a chydweithio rhwng gwahanol sectorau.

**Buddsoddi aml-sector**

Ni ddylai'r cyfrifoldeb am gyllido ymyraethau atal cynradd syrthio ar ffrydiau unigol awdurdodau lleol neu gronfeydd ymddiriedolaeth. Dylai'r sectorau hynny fyddai'n cael budd economaidd sylweddol o leihau cyfraddau VAWDASV fuddsoddi mewn atal cynradd hefyd, yn enwedig iechyd, addysg a chyfiawnder troseddol. Yn gynyddol, anogir gwaith amlasiantaethol ar gyfer atal trais, fel y tystiwyd gan y buddsoddiad o filiynau o bunnoedd gan y Swyddfa Gartref mewn Unedau Lleihau Trais ar draws y DU. Yng Nghymru, arweiniodd y cyllid hwn at sefydlu Uned Atal Trais Cymru - partneriaeth amlasiantaethol sy'n gweithio i atal trais drwy ymagwedd iechyd cyhoeddus.[29]

**Sectorau allweddol ar gyfer hyrwyddo a chyllido atal cynradd**

**Iechyd:** dywed sefydliad iechyd y byd (WHO) fod "trais yn erbyn menywod yn broblem iechyd fyd-eang ar raddfa epidemig"[30] gan bwysleisio "Nid oes unrhyw ymateb iechyd cyhoeddus yn gyflawn heb atal. […] Mae rhaglenni [i atal trais yn erbyn menywod] yn bodoli ac mae llawer yn seiliedig ar hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd".[31] Mae disgrifiad diweddar Ysgrifennydd Cyffredinol y CU o drais yn erbyn menywod a merched fel "pandemig cysgodol", sydd wedi'i amlygu a'i ddwysau gan bandemig COVID-19, yn crisialu'r angen dybryd i adeiladu system fwy gwydn ac ataliol. Yn ei fframwaith ar gyfer atal trais yn erbyn menywod,[32] mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ailddatgan y farn fod gan wasanaethau iechyd ran sylfaenol i'w chwarae yn atal VAWDASV, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau a chefnogi goroeswyr.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[33] wedi cydnabod y gallai lleihau trais a cham-drin arwain at arbedion sylweddol i iechyd a gofal cymdeithasol gan amcangyfrif y byddai rhoi canllawiau NICE[34] ar Drais a Cham-drin Domestig ar waith yn arbed £4,700 y pen bob mis ar gostau tymor hirach yn gysylltiedig â thrin a chefnogi dioddefwyr trais a cham-drin. Canfu adroddiad diweddar *Costau trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru*[35] fod costau tymor byr trais i'r GIG yn £46.6m y flwyddyn gyda chostau tymor hir (oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod) yn £158.8m y flwyddyn. Mae buddsoddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) – a chyflwyno ymwybyddiaeth o ACE a hyfforddiant ar sail trawma - eisoes wedi cael effaith cadarnhaol ar y ffordd y mae gwasanaethau a sefydliadau'n ymateb i gleientiaid y gwyddys eu bod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod[36] (a all gynnwys cam-drin domestig a cham-drin rhywiol); ac mae gan fentrau fel 'Ymholiad Arferol', 'Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch' (IRIS)', a 'Gofyn a Gweithredu' botensial i sicrhau gwelliant mawr yn y modd y mae gwasanaethau iechyd yn adnabod ac yn ymateb yn gynnar i ddioddefwyr a chyflawnwyr VAWDASV. Fodd bynnag, mae gan wasanaethau iechyd cyhoeddus ac iechyd hefyd swyddogaeth bwysig yn cefnogi a chydweithio i beilota, gwerthuso ac ehangu rhaglenni *atal cynradd* sy'n herio normau rhywedd ac arferion niweidiol.

**Cyfiawnder Troseddol:** Er nad yw cyfiawnder troseddol yn faes sydd wedi'i ddatganoli, mae gan gomisiynwyr yr heddlu a throsedd bwerau sylweddol i wneud penderfyniadau ar ba brosiectau sy'n berthnasol i'w cymunedau / rhanbarthau. Mae gan ymdrechion atal cynradd ar gyfer VAWDASV botensial sylweddol i leihau'r lefel o droseddu yn y tymor hir, yn enwedig troseddu difrifol a threisiol, a thrwy hyn leihau'r galw ar y system cyfiawnder troseddol a chaniatáu defnyddio a chyfeirio adnoddau hanfodol yn fwy effeithiol. Mae'n dilyn felly y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol fuddsoddi yn y gwaith hwn. Mae buddsoddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru yn Newid sy'n Para yn enghraifft gadarnhaol o'r

ffordd y gall asiantaethau cyfiawnder troseddol weithio gyda'r sector arbenigol i wella ymatebion atal cynradd, eilaidd, a thrydyddol i VAWDASV.

**Addysg:** Mae rôl y sector addysg yn atal VAWDASV yn glir. Mae gan leoliadau addysg, yn cynnwys ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, colegau a phrifysgolion y potensial i chwarae rhan sylweddol yng ngwaith atal cynradd VAWDASV, gan fanteisio ar y gallu i gyrraedd nifer fawr o blant a phobl ifanc y mae ganddynt ddyletswydd gofal drostynt. Mae lleoliadau addysg wedi'u cydnabod fel amgylcheddau pwysig ar gyfer meithrin agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb rhywedd a pherthnasoedd iach a pharchus. Bydd atal cynradd effeithiol yn y lleoliadau hyn hefyd yn helpu i adnabod y plant a'r bobl ifanc sy'n profi VAWDASV a'u galluogi i gael gwell cefnogaeth – a all arwain at well canlyniadau o ran perfformiad yn yr ysgol / prifysgol, yn ogystal ag i'r plant a'r bobl ifanc unigol.

**Y Cyfryngau:** Ystyrir y Cyfryngau yn 'bwynt mynediad' allweddol ar gyfer atal VAWDASV yn y tymor hir.[37] Mae hyn oherwydd ehangder eu cyrhaeddiad i rannau eang o'r boblogaeth a'u gallu i ddylanwadu a ffurfio syniadau a chanfyddiadau am yr hyn a gaiff ei ystyried yn dderbyniol yn gymdeithasol. Mae adroddiadau newyddion yn benodol yn ffactor allweddol yn ffurfio dealltwriaeth y gymuned o VAWDASV am eu bod yn cynnig fframwaith i'w ddehongli. Gall pwy neu beth a ddewisir i ymddangos yn y newyddion a sut y portreadir yr unigolion a'r digwyddiadau hyn ddylanwadu'n fawr ar agweddau, credoau ac ymddygiad pobl.[38]

Gall y cyfryngau yn fwy cyffredinol naill ai atgyfnerthu neu herio'r normau cymdeithasol ynghylch camwahaniaethu ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd sy'n sail i VAWDASV. Gall fod yn arf sylweddol ar gyfer hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch cydraddoldeb rhywedd; mynd i'r afael â normau rhywedd niweidiol a chyfyngol; cynyddu modelu rôl cadarnhaol ar gyfer perthnasoedd iach; rhannu gwybodaeth gywir am VAWDASV; a dal gwasanaethau a sefydliadau'n atebol pan fyddant yn methu goroeswyr / dioddefwyr VAWDASV. Mae ganddynt rôl arbennig o bwysig yn helpu i greu'r amgylchiadau ar gyfer newid diwylliannol - yn enwedig mewn perthynas â chymunedau sydd eisoes yn dioddef stigma a rhagfarn eang. Er enghraifft, mae mynd i'r afael ag arferion anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, a'r hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd' yn golygu bod rhaid i'r cymunedau y mae'r cyflawnwyr yn teimlo eu bod yn perthyn iddynt arwain ymdrechion i newid a herio eu hagweddau a'u credoau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cymunedau'n llai tebygol o gydnabod a siarad yn agored am arferion negyddol os ydynt yn ofni y caiff hyn ei adrodd yn y cyfryngau mewn modd sy'n eu pardduo ac yn cynyddu rhagfarn yn eu herbyn.[39] Yn amlwg mae gan y cyfryngau rôl bwysig i'w chwarae drwy ohebu ar yr ymdrechion cymunedol cadarnhaol a wneir i ymdrin â VAWDASV ac osgoi adrodd mewn ffordd sy'n gosod stigma (pellach) ar y cymunedau sy'n ymdrin â heriau arbennig o anodd. Yn gryno, gallai sianelau a darparwyr y cyfryngau fod yn bartneriaid/cynghreiriaid allweddol ar gyfer atal cynradd.

**Cymunedau**: Mae angen i gymunedau cyfan fod yn rhagweithiol yn atal VAWDASV a chefnogi'r rheini yr effeithir arnynt. Dylai gweithleoedd fod yn fannau diogel a grymusol i'r holl staff a gwirfoddolwyr i alluogi pawb i ffynnu yn eu gyrfaoedd. Mae ymyraethau sy'n ceisio (ail)adeiladu annibyniaeth economaidd ac adnoddau menyw yn bwysig; er enghraifft, drwy feicrogyllido gyda chynilon a benthyciadau i fenywod, cynyddu mynediad at gyfleusterau bancio ffurfiol, rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol neu swyddi, neu drosglwyddiadau arian

parod. Mae llawer o ymyraethau llwyddiannus hefyd yn darparu hyfforddiant ar VAWDASV ac yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â normau ac ystrydebau o ran rhywedd. [40]

**Camau gweithredu a lleoliadau allweddol ar gyfer ymateb system gyfan i atal VAWDASV**

Yn yr adran hon cynigir amrywiaeth o fathau o ymyrryd a lleoliadau ar gyfer ymyraethau. Mae'n adeiladu ar yr ymyraethau sydd eisoes ar waith mewn rhannau o Gymru ac yn tynnu ar dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol o'r 'hyn sy'n gweithio' mewn perthynas â mentrau atal VAWDASV.[41]

| Sector | Lleoliadau | Ymyraethau / Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **Addysg** | Ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau chweched dosbarth. | Gwreiddio **'dull addysg gyfan'** o ran VAWDASV yn y sefydliad,[42] fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru.[43] Ceir tystiolaeth sylweddol mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno addysg sy'n herio normau ac ystrydebau yw pan gaiff ei gwreiddio yn y cwricwlwm a'i hystyried yn un o werthoedd craidd y sefydliad ei hun, gyda chefnogaeth **gweithdai gan arbenigwyr allanol.[44]**<br><br>*Gallai datblygiadau fel **cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb gorfodol** sy'n ymateb i rywedd ac yn seiliedig ar hawliau, **Operation Encompass,** a chyflwyno'r **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol** i'r holl staff gyfrannu at gyflawni dull addysg gyfan, ond rhaid atgyfnerthu hyn a'i hybu gydag ymgysylltu da â disgyblion, rhieni a'r gymuned, polisïau cryf ar VAWDASV a chysondeb wrth eu gorfodi, cysylltiadau da gyda gwasanaethau arbenigol VAWDASV, a hyfforddiant rheolaidd ar sut i adnabod ac ymateb i arwyddion o wahanol fathau o gam-drin (h.y. ddim yn gyfyngedig i gam-drin domestig). Gallai **ymyraethau gwyliedydd** (Bystander Interventions) gael eu cynnwys hefyd fel rhan o ddull addysg gyfan.[45]* |
| | Colegau addysg bellach a phrifysgolion. | Gwreiddio **'dull system gyfan'** o ran VAWDASV yn y sefydliad. Yr un egwyddorion â dull addysg gyfan Llywodraeth Cymru i ysgolion (ac eithrio rhieni): addysg VAWDASV i fyfyrwyr a staff (ond a gyflwynir mewn ffyrdd gwahanol), polisïau a chodau ymarfer ymddygiad VAWDASV clir, a system datgelu ac ymateb weladwy, sy'n cynnwys llwybrau atgyfeirio clir at wasanaethau arbenigol.[46]<br>***Ymyraethau Gwyliedydd** (Bystander Interventions) yw un drefn addawol ar gyfer addysgu myfyrwyr a rhoi'r gallu iddynt herio rhywiaeth, aflonyddu rhywiol, ac anghydraddoldeb rhywedd. Er gwaethaf pryderon am y risg o 'bregethu i'r cadwedig', [47] mae tystiolaeth* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ddiweddar yn awgrymu bod ymgyrchoedd Gwyliedydd drwy ebost (yn hytrach na sesiynau hyfforddi) sy'n hybu normau cymdeithasol gan bwysleisio bod bod yn wyliedydd gweithredol yn gyffredin yn hytrach nag yn brin, yn fwy effeithiol ar gyfer annog cyfran uwch o fyfyrwyr a staff i fod yn wyliedydd gweithredol,*[48] *ond bod ymyraethau Gwyliedydd dwys, fel y Fenter Ymyrraeth,*[49] *yn gallu bod yn effeithiol i rymuso pobl sydd â diddordeb i lwyddo i herio agweddau ac ymddygiadau sy'n arwain at VAWDASV.* [50] *Dylai prifysgolion ystyried cyflwyno modiwl(au) gorfodol ar VAWDASV i staff a myfyrwyr.*[51]<br><br>Dylid **gwreiddio** dysgu am VAWDASV **mewn graddau penodol**, yn enwedig **hyfforddiant i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gwaith cymdeithasol** a **cholegau plismona**. Byddai hyn yn cynyddu'r potensial i'r gweithwyr rheng flaen hyn adnabod ac ymateb yn briodol i VAWDASV wrth ddechrau gweithio, yn ogystal â chynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu gweithlu sydd ag agweddau anwahaniaethol ac nad yw'n ymarfer ymddygiad rhywiaethol na gormesol. |
| **Iechyd** | Pob lefel o ddarpariaeth gofal iechyd, yn enwedig gofal sylfaenol a brys, darparwyr cynllunio teulu ac iechyd rhyw; Byrddau Iechyd Lleol. | **Hyfforddi'r holl weithwyr iechyd proffesiynol** i adnabod arwyddion a symptomau o **bob math o VAWDASV** yn eu rolau penodol, a gallu helpu i ymateb yn briodol. Mae hyn yn cynnwys adnabod y rheini sydd mewn perygl o amrywiol fathau o drais, yn ogystal â'r rheini a allai fod eisoes yn profi neu'n cyflawni cam-drin.<br><br>*Mae **Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)** wedi profi'n llwyddiannus gan gynyddu atgyfeiriadau cam-drin domestig gan feddygon teulu i wasanaethau arbenigol VAWDASV;*[52] *dylai hyn hybu arferion '**Gofyn a Gweithredu**' drwy gryfhau ansawdd y cymorth sydd ar gael i oroeswyr a chyflymder ac effeithlonrwydd llwybrau atgyfeirio, a chefnogi staff yr un pryd. Mae'n bwysig fod meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol eraill yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr ym **mhob math** o VAWDASV, nid cam-drin domestig yn unig. **Ymweliadau cartref, gwaith allgymorth gweithwyr iechyd** ac **ymyraethau rhianta gyda gwasanaethau arbenigol VAWDASV:** mae'r rhain i gyd wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau cam-drin / esgeuluso plant a glasoed.*[53] |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithleoedd eraill a chymunedau** | Gweithleoedd ac amrywiol gymunedau (e.e. grwpiau ieuenctid, cynulleidfaoedd crefyddol, grwpiau diwylliannol, grwpiau menywod, grwpiau dynion, clybiau chwaraeon a hamdden) | Sicrhau bod gan **bolisïau'r gweithle ar VAWDASV** sy'n galluogi datgelu diogel ac atgyfeirio am gefnogaeth weithdrefnau disgyblu effeithiol i atal ac ymdrin â VAWDASV a gyflawnir gan staff / cleientiaid a darparu **absenoldeb â thâl i oroeswyr unrhyw fath o VAWDASV** (ddim yn gyfyngedig i gam-drin domestig) er mwyn iddynt allu cyrchu'r gefnogaeth sydd ei hangen).<br><br>*Gall **Hyfforddiant i Weithwyr Proffesiynol Dibynadwy** helpu i greu amgylchedd sy'n ddiogel ar gyfer datgelu a cheisio cymorth – mae hyn yn cynnwys pob gweithle yn ogystal â chlybiau hamdden, ac yn y gymuned ehangach.*<br><br>Gweithredu cynllun **'Gofyn i Fi'**: mae aelodau cymunedol (Llysgenhadon) yn gallu deall VAWDASV, chwalu'r tawelwch o'i gwmpas yn eu cymunedau amrywiol, herio agweddau sy'n cydoddef ac sy'n sylfaen i VAWDASV, a chyfeirio pobl at gymorth.<br><br>**Hyrwyddo / ymgyrchoedd cymunedol** i newid normau rhywedd (rhaid bod yn brosiectau cymunedol, cyfranogol, gyda rhanddeiliaid niferus).<br><br>**Gweithdai grŵp gyda dynion a bechgyn** i newid normau cymdeithasol ac ymddygiad sy'n cydoddef VAWG (a gyflwynir e.e. gan wasanaethau ieuenctid, cyrff trydydd sector).<br><br>Gweithdai grŵp i wella **dylanwad a/neu rym economaidd menywod a merched** (a gyflwynir gan wasanaethau ieuenctid, cyrff trydydd sector) sydd hefyd yn rhywedd-drawsnewidiol, gan ymdrin â normau ac ystrydebau rhywedd.<br><br>**Rhaglenni ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc** sy'n dangos arwyddion o gam-drin rhyngbersonol at aelodau o'r teulu.<br><br>*'**Break4Change**' yw un rhaglen o'r fath sydd wedi derbyn gwerthusiad cadarnhaol.*[54]<br><br>**Prosiectau Mentora i blant** sydd wedi profi cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin. |
| **Y Cyfryngau** | O gyfryngau lleol i | Darparu **hyfforddiant, wedi'i lywio gan oroeswyr fel arbenigwyr**, i sianelau cyfryngol / newyddiadurwyr ar |

| | | |
|---|---|---|
| | genedlaethol - gohebwyr, cwmnïau, rheoleiddwyr; defnyddwyr a rheoleiddwyr cyfryngau cymdeithasol. | sut i ohebu ar achosion o VAWDASV, gan gadw at egwyddor 'yn gyntaf, peidiwch â niweidio' – rheoleiddwyr y cyfryngau i sefydlu safonau'n seiliedig ar hawliau dynol ar gyfer gohebu am VAWDASV.<br><br>Cyrff cyfryngau prif lif i **wahardd diraddio a gwrthrychu'r darlun o fenywod a merched** a hyrwyddo portreadau o berthnasoedd iach, cyfartal ac amrywiaeth o ddynion a menywod i herio ystrydebau rhywedd niweidiol.<br><br>Y cyfryngau cymdeithasol i gyflwyno a gorfodi **polisïau clir ynghylch cam-drin ar-lein** (yn cynnwys aflonyddu rhywiol a cham-drin gwreig-gasaol / homoffobaidd / hiliol) a sicrhau ymatebion cadarn a chyflym.<br><br>*Mae'r camau hyn yn hanfodol i sicrhau gohebu moesegol ar VAWDASV gan y cyfryngau, lleihau'r nifer o adroddiadau sy'n 'beio'r dioddefwr', diwygio portreadau o fenywod, merched a chysylltiadau rhywedd mewn diwylliant poblogaidd, herio ystrydebau rhywedd cyfyngol a gwrthrychu menywod a merched, a delio ag achosion ar-lein o VAWDASV, a'u lleihau.*[55] |

## 7. Monitro Newid

Busnes craidd ymagwedd iechyd cyhoeddus at VAWDASV yw atal ei gyflawniad drwy herio agweddau a chredoau niweidiol ac adeiladu cefnogaeth gymdeithasol a sefydliadol sy'n atal atgynhyrchu VAWDASV. Yn hynny o beth, dylai fod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer mesur y newid hwn dros amser (h.y. mesur llwyddiant ymdrechion atal cynradd). Mae angen i ni adeiladu pensaernïaeth data cynhwysfawr i gasglu a rhannu data lefel poblogaeth ar VAWDASV yn ddiogel, gan gynnwys data a gesglir yn rheolaidd (gweinyddol) ar lefelau'r galw ar wasanaethau (wedi'i wahanu yn ôl nodweddion gwarchodedig) a data arolwg i ddeall amlder ffactorau risg a diogelu ar gyfer VAWDASV (er enghraifft agweddau a chredoau sy'n hwyluso anghydraddoldeb o ran rhywedd), ac amlder ac achosion o wahanol fathau o VAWDASV. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau yng Nghymru drwy ddatblygu dangosyddion VAWDASV cenedlaethol, ond mae rhagor o fuddsoddiad a blaenoriaethu'n hanfodol bwysig i ddeall epidemioleg trais a llywio gwaith ataliol a chynllunio ac ymateb system gyfan.

## 8. Casgliad

Yn y pen draw, rhaid i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd i sicrhau bod atal cynradd yn cael ei osod yng nghanol yr ymateb i VAWDASV yng Nghymru – *ochr yn ochr*, ac nid ar draul

cefnogaeth i oroeswyr a dal cyflawnwyr yn atebol. Fe wyddom fod newid agweddau a normau yn ymdrech tymor hir[56] ac y bydd angen blynyddoedd o ymdrechion atal cynradd VAWDASV llwyddiannus cyn y gwelir unrhyw effaith ar amlder VAWDASV.[57] Os ydym ni'n debygol o allu dileu pob math o drais yn erbyn menywod yng Nghymru erbyn 2030, yn ôl Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, mae'n hanfodol fod Cymru'n ymrwymo i raglen o atal cynradd, eilaidd a thrydyddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer ei rhoi ar waith a'i monitro.

---

Ysgrifennwyd gan Heddwen Daniel, Swyddog Atal Cymorth i Ferched Cymru, mewn cydweithrediad â Lara Snowdon, Arweinydd Rhaglen Atal Trais yn Uned Atal Trais Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gyda diolch arbennig i Dr Fiona Vera-Gray, Prifysgol Durham, am helpu i siapio'r ddogfen drwy gynnig sylwadau craff a doeth.

Ebost cyswllt: HeddwenDaniel@WelshWomensAid.org.uk

## Cyfeirnodau

[1] Sefydliad Iechyd y Byd (2019) 'RESPECT women: preventing violence against women'; https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/312261/WHO-RHR-18.19-eng.pdf?ua=1 [cyrchwyd 25.02.2020]; gweler hefyd Sefydliad Iechyd y Byd (2013) News Release https://www.who.int/mediacentre/news/releases/2013/violence_against_women_20130620/en/ [cyrchwyd 25.02.2020]

[2] Fel y diffiniwyd gan y Cenhedloedd Unedig (1993) 'Declaration on the Elimination of Violence against women'; https://www.un.org/en/genocideprevention/documents/atrocity-crimes/Doc.21_declaration%20elimination%20vaw.pdf]

[3] Hagemann-White et al. (2010) 'Review of Research on Factors at Play in Perpetration'; https://www.humanconsultancy.com/assets/understanding-perpetration/bin/Review%20of%20Research.pdf [cyrchwyd 19.02.2020]

[4] Flood, M. and Pease, B. (2009)' Factors influencing attitudes towards violence against women', *Trauma, Violence and Abuse*, Vol. 10(2), pp.125-142.

[5] Dangosodd astudiaeth ddiweddar yn Awstralia fod credoau o ran normau ystrydebol gwrywaidd ymhlith dynion 18-30 oed 25 gwaith yn fwy cywir fel ffordd o ragweld eu defnydd o drais corfforol ac aflonyddu rhywiol na newidynnau demograffig – ar gael https://jss.org.au/wp-content/uploads/2020/07/JSS200712_UMB_Report_Digital.pdf.

[6] Kelly, L., Sharp, N. and Klein, R. (2015) 'Finding the Costs of Freedom: How women and children rebuild their lives after domestic violence'; https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/Costs_of_Freedom_Report_-_SWA.pdf

[7] Hagemann-White et al. (2010) 'Review of Research on Factors at Play in Perpetration'; https://www.humanconsultancy.com/assets/understanding-perpetration/bin/Review%20of%20Research.pdf [cyrchwyd 19.02.2020]

[8] Care International (2014) 'Gender-based violence: a global epidemic requiring committed and effective action', ar gael: https://insights.careinternational.org.uk/development-blog/gender-based-violence-a-global-epidemic-requiring-committed-and-effective-action.

Sefydliad Iechyd y Byd (2017) 'Strengthening health systems to respond to women subjected to intimate partner violence or trais rhywiol A manual for health managers', ar gael: https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/259489/9789241513005-eng.pdf;jsessionid=38B5BD271C0E6F2AFFA8570F766AC353?sequence=1

Cenhedloedd Unedig (2018) 'Ending inequality means ending 'global pandemic' of violence against women – UN chief', ar gael https://news.un.org/en/story/2018/11/1026071

[9] Ysgrifennydd Cyffredinol y CU (2020), Datganiad i'r wasg. Trawsgrifiad ar gael https://www.un.org/press/en/2020/sgsm20160.doc.htm

[10] Flood, M. and Pease, B. (2009)' Factors influencing attitudes towards violence against women', *Trauma, Violence and Abuse*, Vol. 10(2), pp.125-142

[11] Drwy wella diogelwch yr amgylchedd drwy e.e. sicrhau golau stryd digonol a chynnwys menywod wrth gynllunio mannau cyhoeddus.

[12] DeGue, S., Simon, T., R., Basile, K., C., Yee, S., L., Lang, K., & Spivak, H., (2012), Moving forward by looking back: reflecting on a decade of CDC's work in sexual violence prevention, 2000–2010, *Journal of Women's Health*, 21(12), 1211–1218.

[13] Adroddiad Gwerthuso Interim Newid sy'n Para – ar y gweill.

[14] Llywodraeth Cymru (2016) *Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol* – 2016-2021

[15] Swyddfa Gartref (2019) 'The economic and social costs of domestic abuse' https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772180/horr107.pdf [cyrchwyd 20.02.2020]

[16] Amcangyfrif o gostau treisio (£4.8bn) a 'throseddau rhywiol eraill' (£7.4bn) yn 2015-16, yn seiliedig ar amcangyfrif o gyfanswm troseddau o 121,750 a 1,137,320, yn eu tro - *The economic and social costs of crime - Second edition*. Home Office: London. Ar gael https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/732110/the-economic-and-social-costs-of-crime-horr99.pdf

[17] NHS England (2018) 'Commissioning services to meet the needs of women and girls with FGM', ar gael: https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2018/04/commissioning-services-to-meet-the-needs-of-women-and-girls-with-fgm-1.pdf
[18] Nid oedd modd canfod y ffigurau hyn.
[19] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) 'Progress in implementing the Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act'; https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_eng.pdf [cyrchwyd 24.02.2020]
[20] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) 'Progress in implementing the Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act'; https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_eng.pdf [cyrchwyd 24.02.2020].
[21] Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cymru ar Gydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2016) 'Is the Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 working? Post-legislative scrutiny' https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10863/cr-ld10863%20-%20e.pdf [cyrchwyd 24.02.2020]
[22] Llywodraeth Cymru (2015) 'Good Practice Guide: A Whole Education Approach to Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence in Wales'
[23] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) 'Progress in implementing the Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act'; https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_eng.pdf [cyrchwyd 24.02.2020]
[24] Gweler er enghraifft ragamcanion ar gyfer canlyniadau atal cynradd dros y tymor byr, canolig a hir gan *Victoria State Government (2019) 'FREE FROM VIOLENCE: Victoria's strategy to prevent family violence and all forms of violence against women; First Action Plan 2018-2021: Annual Report Year One 2018-19'*
[25] Ac eithrio'r NTF, fel y nodwyd ynghynt.
[26] Llywodraeth Cymru (2019) 'Draft Budget 2020-21'; https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-12/2020-2021-draft-budget-narrative.pdf [cyrchwyd 24.02.2020]
[27] Cydnabyddir yr anawsterau sy'n codi o ddiffyg cyllid i wasanaethau; fodd bynnag nid diben yr adran nesaf yw cynnig datrysiad i'r anawsterau cyllido.
[28] Gweler United Nations *Framework to Underpin Action to Prevent Violence against women* (2015) https://www.unwomen.org/-/media/headquarters/attachments/sections/library/publications/2015/prevention_framework_unwomen_nov2015.pdf?la=en&vs=5223 and Sefydliad Iechyd y Byd *RESPECT Framework for Preventing Violence against women* (2019) https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/312261/WHO-RHR-18.19-eng.pdf?ua=1.
[29] Gwefan Uned Atal Trais Cymru (2020) - https://www.violencepreventionwales.co.uk/ [cyrchwyd 30.10.2020)
[30] WHO (2013) Datganiad Newyddion https://www.who.int/mediacentre/news/releases/2013/violence_against_women_20130620/en/ [cyrchwyd 25.02.2020]
[31] WHO (2013) 'Global and regional estimates of violence against women: prevalence and health effects of intimate partner violence and non-partner sexual violence; https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/85239/9789241564625_eng.pdf?sequence=1 [cyrchwyd 25.02.2020]
[32] Sefydliad Iechyd y Byd (2019) 'RESPECT women: preventing violence against women'; https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/312261/WHO-RHR-18.19-eng.pdf?ua=1 [cyrchwyd 25.02.2020]
[33] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) 'Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well-being for the People of Wales' https://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20Making%20a%20difference%20ES%28Web_2%29.pdf [cyrchwyd 25.02.2020]
[34] National Institute for Health and Care Excellence (2016) 'Domestic violence and abuse: quality standard'; https://www.nice.org.uk/guidance/qs116/resources/domestic-violence-and-abuse-pdf-75545301469381 [cyrchwyd 25.02.2020]
[35] Jones, L., Bigland C. and Quigg, Z. (2020) *Costs of Violence to the healthcare system in Wales*. Caerdydd: Uned Atal Trais.
[36] Gweler er enghraifft Estyn (2020) 'Knowing your children – supporting people with adverse childhood experiences (ACEs)' https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Knowing%20your%20children%20%20supporting%20pupils%20with%20adverse%20childhood%20experiences_0.pdf [cyrchwyd 25.02.2020]

[37] UN Women (2019) The Big Conversation: Handbook to Address Violence against women in and through the Media. Ar gael https://www.unwomen.org/-/media/headquarters/attachments/sections/library/publications/2019/thebigconversation-mediahandbook-compressed.pdf?la=en&vs=5819
[38] Our Watch (2017) News media and the primary prevention of violence against women and their children: Emerging Evidence, Insights and Lessons. Ar gael: https://d2bb010tdzqaq7.cloudfront.net/wp-content/uploads/sites/2/2019/11/07040030/Emerging-evidence-guide-media-AA.pdf
[39] E.g. Gangoli, G., Gill, A., Mulvihill, N. and Hester, M. (2018) 'Perception and barriers: reporting female genital mutilation', *Journal of Aggression, Conflict and Peace Research*, ar gael https://www.emerald.com/insight/content/doi/10.1108/JACPR-09-2017-0323/full/html
[40] The Fawcett Society (2020*) Hers and His: Opening up the Household Budget*. Available at: https://www.starlingbank.com/docs/FawcettSocietyReport.pdf
Gweler hefyd: https://www.starlingbank.com/docs/make-money-equal-booklet.pdf
World Health Organisation/London School of Hygiene and Tropical Medicine, 'Preventing intimate partner and sexual violence against women: Taking action and generating evidence', World Health Organisation, 2010.
[41] Mae angen rhagor o ymchwil (e.e. ar yr hyn sy'n gweithio gyda chymunedau ymyledig / y rheini sy'n profi mathau croestoriadol niferus o gamwahaniaethu / mathau penodol o VAW) ac wrth dreialu ymyriadau, rhaid eu monitro a'u gwerthuso.
[42] Sefydliad Iechyd y Byd RESPECT Framework for Preventing Violence against women (2019) https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/312261/WHO-RHR-18.19-eng.pdf?ua=1.
[43] Llywodraeth Cymru (2015) 'Good Practice Guide: A Whole Education Approach to Violence against women, Domestic Abuse and Sexual Violence in Wales'
[44] Llywodraeth Cymru (2017) 'The Future of the Sex and Relationships Education Curriculum in Wales: Recommendations of the Sex and Relationships Education Expert Panel';
[45] Coker et al. (2017) 'RCT Testing Bystander Effectiveness to Reduce Violence', ar gael: https://www.ajpmonline.org/article/S0749-3797(17)30027-2/fulltext
[46] Universities UK (2016) 'Changing the Culture: Report of the Universities UK Taskforce examining violence against women, harassment and hate crime affecting university students', ar gael https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2016/changing-the-culture.pdf
[47] Fenton, R. and Mott, H.L. (2018) 'Evaluation of the Intervention Initiative: A Bystander Intervention Program to Prevent Violence against women in Universities'; *Violence and Victims*, 33(4), pp.645-662
[48] VicHealth (2019) Take action: Empowering bystanders to act on sexist and sexually harassing behaviours in universities The final report from the Phase Two bystander trials 2018-2019. Ar gael: https://www.vichealth.vic.gov.au/-/media/ResourceCentre/PublicationsandResources/PVAW/Bystander/Bystander_Final-ReportPhase2Trials.pdf?la=en&hash=252829B0D9FFD147690D7FC9FD9907B8D79E3B2D
[49] Fenton, R. and Mott, H. (2018) Evaluation of the Intervention Initiative: A Bystander Intervention Program to Prevent Violence against women in Universities. Ar gael https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/30567766/
[50] VicHealth (2019) Take action: Empowering bystanders to act on sexist and sexually harassing behaviours in universities The final report from the Phase Two bystander trials 2018-2019. Ar gael: https://www.vichealth.vic.gov.au/-/media/ResourceCentre/PublicationsandResources/PVAW/Bystander/Bystander_Final-ReportPhase2Trials.pdf?la=en&hash=252829B0D9FFD147690D7FC9FD9907B8D79E3B2D
[51] Gweler er enghraifft, UK Parliament Committee Evidence on 'Women's Safety in University', 2017; https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/701/70110.htm [cyrchwyd 02.03.2020]
[52] Lewis et al. (2019) 'Implementation of the Identification and Referral to Improve Safety programme for patients with experience of domestic violence and abuse: A theory-based mixed-method process evaluation', *Health & Social Care in the Community,* 27(4).
[53] Gweler, e.e. Fulu et al. (2014) 'What works to prevent violence against women a merched? Evidence Review of interventions to prevent violence against women and gifls; Webster and Flood (2015) 'Framework Foundations 1: A review of the evidence on correlates of violence against women and what works to prevent it'; ANROWS and VicHealth (2015) 'Framework foundations 2: Think pieces, stakeholder consultations, issues, implications and approach', Companion document to *Change the Story: A shared framework for the primary prevention of violence against women and their children in Australia;*
[54] See https://helenbonnick.files.wordpress.com/2011/10/break4change-outline.pdf
[55] UN Women (2019) The Big Conversation: Handbook to Address Violence against women in and through the Media. Ar gael https://www.unwomen.org/-

/media/headquarters/attachments/sections/library/publications/2019/thebigconversation-mediahandbook-compressed.pdf?la=en&vs=5819
Cymorth i Ferched Cymru (2019) 'Online Abuse – the use of the digital world to perpetrate violence against women and gifls, ar gael: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Online-Abuse-The-use-of-the-digital-world-to-perpetrate-VAWDASV.pdf

[56] Wales Centre for Public Policy (2019) Gender Equality: Learning from Nordic Nations; https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/Gender-equality-Learning-from-Nordic-nations-report-.pdf [cyrchwyd 19.03.2020]

[57] Gweler e.e. Victoria State Government (2019) 'Free from Violence: Victoria's strategy to prevent family violence and all forms of violence against women; First Action Plan 2018-2021: Annual Report Year One 2018-19', ar gael: https://www.vic.gov.au/sites/default/files/2019-05/Free-From-Violence-First-Action-Plan2018-2021.pdf.

Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk
gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofon.cymru

www.welshwomensaid.org.uk



Registered Charity Number: 1140962


Dilynwch ni:
@welshwomensaid

Lywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First